Cyllid & Tollau EM

# Dalen barhad ar gyfer Treth Ar Werth: Rhestr Gwerthiannau yn y GE

Os yn wag, nodwch eich enw a chyfeiriad yma

Nodwch y manylion canlynol. Os nad ydych yn gwneud hynny, ni allwn ddefnyddio'r wybodaeth yr ydych yn ei rhoi ar weddill y ffurflen hon.

Rhif Cofrestru TAW

Rhif adnabod y gangen/is-gwmni

Cyfeirnod y cyfnod *MM BB*

Defnyddiwch y ffurflen hon os oes gennych fwy nag wyth o drafodion i'w cofnodi ar eich VAT101W Rhestr Gwerthiannau yn y GE ar gyfer y cyfnod penodol. Er mwyn osgoi cosb, sicrhewch fod y ffurflen hon yn cyrraedd Cyllid a Thollau EM yn brydlon.

**Cyn i chi ddechrau**, nodwch eich manylion ar frig y dudalen. Os na rowch y manylion hynny, ni allwn ddefnyddio'r wybodaeth yr ydych yn ei rhoi isod, ac efallai bydd rhaid i ni ddychwelyd y ffurflen atoch.

Pan dderbyniwn y ffurflen hon caiff ei sganio, felly ysgrifennwch yn glir mewn inc du. Gadewch unrhyw flychau sydd ddim yn berthnasol i chi yn wag - peidiwch â rhoi llinell drwyddynt a pheidiwch ag ysgrifennu 'dim'. Bydd y nodiadau ar dudalen 2 yn eich cynorthwyo i gwblhau gweddill y ffurflen hon. Am fwy o gyngor ynglŷn â'r ffurflen hon, ewch i **www.hmrc.gov.uk** neu ffoniwch ein Llinell Gymorth ar **0300 200 3705** (dydd Llun i ddydd Gwener, 8:00 i 18:00).

Sylwer - os ydych yn cyflwyno eich Rhestr Gwerthiannau yn y GE ar-lein, byddwch yn cael saith niwrnod ychwanegol i wneud hynny. I gael gwybod mwy ewch i **www.hmrc.gov.uk** ac o dan *do it online* dewiswch *VAT Online*.

| | Cod y Wlad | Rhif Cofrestru TAW y Cwsmer | Cyfanswm gwerth y cyflenwadau mewn punnoedd sterling (£) | Dangosydd |
|---|---|---|---|---|
| 1 | | | £ . 00 | |
| 2 | | | £ . 00 | |
| 3 | | | £ . 00 | |
| 4 | | | £ . 00 | |
| 5 | | | £ . 00 | |
| 6 | | | £ . 00 | |
| 7 | | | £ . 00 | |
| 8 | | | £ . 00 | |
| 9 | | | £ . 00 | |
| 10 | | | £ . 00 | |
| 11 | | | £ . 00 | |
| 12 | | | £ . 00 | |
| 13 | | | £ . 00 | |

Nifer o linellau wedi eu cwblhau

## Cyn i chi ddechrau

**Rhestrau Gwerthiannau Misol**

Os ydych yn cyflenwi nwyddau a gwasanaethau ac mae'n ofynnol i chi gyflwyno eich Rhestrau Gwerthiannau yn y GE ar gyfer nwyddau yn fisol:

- cewch adrodd **nwyddau'n unig** ym misoedd 1 a 2 ac adrodd **nwyddau** am y mis a **gwasanaethau** am y chwarter cyfan ym mis 3, neu
- cewch adrodd nwyddau a gwasanaethau bob mis.

**Rhestr Gwerthiannau yn y GE (ESL) flynyddol wedi ei symleiddio ar gyfer cyflenwi nwyddau**

Os yw Cyllid a Thollau EM wedi rhoi caniatâd i chi gyflwyno ESL flynyddol wedi ei symleiddio gan fod gennych lefel isel o gyflenwi nwyddau i wledydd eraill yn y GE, nid oes angen i chi nodi gwir werth y cyflenwadau.

Yn hytrach, rhowch gyfanswm nominal o £1. Yna dilynwch weddill yr arweiniad ynglŷn â'r Rhif Cofrestru TAW a'r blwch dangosydd.

## Sut i lenwi'r ffurflen hon

- Ysgrifennwch y tu mewn i'r blychau. Defnyddiwch inc du a phrif lythrennau.
- Os ydych yn gwneud camgymeriad, rhowch linell drwyddo ac ysgrifennwch yr wybodaeth gywir o'i dano.
- Gadewch unrhyw flychau sydd ddim yn berthnasol i chi yn wag - peidiwch â rhoi llinell drwyddynt. **Peidiwch** ag ysgrifennu 'dim'.
- Cynhwyswch eich gwerthiannau am y cyfnod(au) a ddangosir ar dudalen 1 yn unig.
- Nodwch bob math o werthiant ar linell ar wahân.

### Cod y wlad

Nodwch god gwlad eich cwsmer. Mae ar ffurf dwy lythyren. Mae'n rhaid iddo fod yn un o'r codau a ddangosir isod.

**Codau gwledydd y GE**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Awstria | AT | Gweriniaeth Tsiec | CZ | Portiwgal | PT |
| Bwlgaria | BG | Gwlad Belg | BE | Rwmania | RO |
| Croatia | HR | Gwlad Pwyl | PL | Sbaen | ES |
| Cyprus | CY | Hwngari | HU | Slofenia | SI |
| Denmarc | DK | Iwerddon | IE | Sweden | SE |
| Estonia | EE | Latfia | LV | Y Ffindir | FI |
| Ffrainc | FR | Lithwania | LT | Yr Almaen | DE |
| Groeg | EL | Lwcsembwrg | LU | Yr Eidal | IT |
| Gweriniaeth Slofac | SK | Malta | MT | Yr Iseldiroedd | NL |

### Rhif Cofrestru TAW y Cwsmer

Nodwch Rif Cofrestru TAW eich cwsmer gan ddechrau ar yr ochr chwith bellaf.

**Peidiwch** â chynnwys cod y wlad yn y golofn hon, nac unrhyw flychau, cyplysau nac atalnodau. Os oes angen, darllenwch Hysbysiad 725 *Y Farchnad Sengl* i wirio sut mae rhifau TAW ar gyfer bob gwlad yn y GE yn cael eu fformatio.

Un o'r amodau ar gyfer rhoi cyfradd sero ar gyflenwi nwyddau i wledydd eraill yn y GE yw bod rhaid i chi ddarparu Rhif Cofrestru TAW **dilys** ar gyfer pob un o'ch cwsmeriaid.

Gallwch wirio fod rhif yn ddilys ar wefan Europa. Ewch i **www.ec.europa.eu/taxation_customs/vies**.

### Cyfanswm gwerth y cyflenwadau a'r blwch dangosydd

**Ymhob achos**, cofnodwch y cyfanswm, wedi ei dalgrynnu i lawr i'r bunt sterling agosaf. Nodwch bob swm gan ddechrau ar yr ochr dde bellaf. Rydym eisoes wedi rhoi 'sero' ceiniog a'r pwynt degol ar eich rhan. **Peidiwch** ag ychwanegu atalnodau.

Os oes gennych ffigur minws i gofnodi oherwydd bod gwerth y nodynnau credyd yn fwy na chyfanswm gwerth y cyflenwadau, nodwch arwydd minws mewn blwch gwyn **o flaen** bob gwerth.

Sylwer y gallai fod angen hyd at dair llinell arnoch ar gyfer bob cwsmer. Mae hyn oherwydd bod angen cofnodi cyfanswm gwerth **bob math o werthiant**. Er enghraifft, os ydych wedi cyflenwi nwyddau yn uniongyrchol **ac** fel gwerthiant trionglog **ac** wedi cyflenwi gwasanaeth, mae'n rhaid i chi gwblhau tair llinell ar gyfer y cwsmer hwnnw. Rhoddir mwy o arweiniad isod.

- Os gwnaethoch gyflenwi nwyddau, cofnodwch werth (gan gynnwys costau perthynol) yr holl nwyddau a gyflenwyd i'r cwsmer hwnnw (gan ddidynnu nodynnau credyd lle'n briodol). Gadewch y golofn dangosydd yn **wag**. Mae costau perthynol yn cynnwys gwasanaethau sy'n ffurfio rhan o'r nwyddau, megis costau cludiant ac yswiriant.
- Os oeddech yn gyflenwr cyfryngol mewn gwerthiant trionglog, cofnodwch gyfanswm gwerth y cyflenwadau i bob cwsmer ar linell sydd ar wahân i unrhyw gyflenwadau eraill a wnaethpwyd i'r cwsmer hwnnw. Nodwch **2** yn y golofn dangosydd.

Os gwnaethoch gyflenwi gwasanaethau a oedd yn rhwym wrth y tâl gwrthdro yng ngwlad y cwsmer sy'n aelod o'r GE, cofnodwch gyfanswm gwerth y cyflenwadau hyn ar linell ar wahân. Nodwch **3** yn y golofn dangosydd.

## Ffurflenni eraill y gallai fod eu hangen arnoch

Os oes angen i chi gywiro unrhyw ddata a gyflenwyd mewn cyfnod cynharach, neu gyflwyno data a hepgorwyd yn flaenorol, gwnewch hynny ar ffurflen VAT101B *Rhestr Gwerthiannau yn y GE - Dalen gywiro.*

I gael gafael ar unrhyw un o'r ffurflenni hyn ewch i **www.hmrc.gov.uk**, dewiswch *Find a Form* a nodwch rif y ffurflen (er enghraifft *VAT101B*). Fel arall, ffoniwch y Llinell Gymorth ar **0300 200 3705** a gofynnwch am gopïau.

## Beth i'w wneud nesaf

Pan fyddwch wedi cwblhau ac arwyddo'r ffurflen hon, anfonwch hi yn yr amlen gyfeiriedig i:

Cyllid a Thollau EM
Comben House
Farriers Way
Liverpool
L75 1AY

I osgoi cosb, sicrhewch fod y ffurflen yn ein cyrraedd yn brydlon.

### Angen cymorth?

Os oes angen arweiniad pellach arnoch ar Restrau Gwerthiannau yn y GE, darllenwch Hysbysiad 725 *Y Farchnad Sengl* sydd ar gael ar-lein. Ewch i **www.hmrc.gov.uk** neu ffoniwch y Llinell Gymorth ar **0300 200 3705** dydd Llun i ddydd Gwener 8:00 i 18:00.